**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL**

**GWEINIDOGION CYMRU**

**CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (YR A494) DISODLI PONT DROS AFON DYFRDWY (GWELLIANT CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I GARDEN CITY)**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL HYSBYSIAD AM DDATGANIAD AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL YN UNOL Â RHEOLIAD 63 O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi prosiect ar waith i ddisodli Pont Ffordd bresennol yr A494 dros Afon Dyfrdwy yn Queensferry, Sir y Fflint (cyfeirnod grid OS SJ315685) gan gynnwys gwaith ar y llinell ac oddi ar y llinell a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl. Mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2014/52/EU (a oedd yn diwygio Cyfarwyddeb 2011/92/EU) a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol yn ymwneud â Harbyrau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2017. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad Amgylcheddol (DA).

Mae'r prosiect hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd yn unol â Rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC. Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn hysbysu eu bod wedi cyhoeddi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP).

Gellir edrych ar gopïau o'r DA a'i Grynodeb Annhechnegol (CA), DHAP a dogfennau ategol yn rhad ac am ddim ar adegau rhesymol o 30 Medi 2025 tan 11 Tachwedd 2025 yn Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, Y Ganolfan Hamdden, Chester Road West, Queensferry, Glannau Dyfrdwy CH5 1SA neu yn Swyddfa Llywodraeth Cymru Cyffordd Llandudno, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ. Maent hefyd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar wefan y prosiect: https://llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

**NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL STATEMENT**

**THE WELSH MINISTERS**

**THE DOLGELLAU TO SOUTH OF BIRKENHEAD TRUNK ROAD (A494) RIVER DEE BRIDGE REPLACEMENT (QUEENSFERRY INTERCHANGE TO GARDEN CITY IMPROVEMENT)**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT NOTICE OF ENVIRONMENTAL STATEMENT IN ACCORDANCE WITH SECTION 105 B OF THE HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR EUROPEAN SITES**
**NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN APPROPRIATE ASSESSMENT IN ACCORDANCE WITH REGULATION 63 OF THE CONSERVATION OF HABITATS AND SPECIES REGULATIONS 2017 (AS AMENDED)**

The Welsh Ministers are considering implementing a project for the replacement of the existing A494 River Dee Road Bridge at Queensferry, Flintshire (OS grid reference SJ315685) including online and off line works and side road improvements. This project is subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended) and Directive 2014/52/EU (which amended Directive 2011/92/EU) and the Environmental Impact Assessment (Miscellaneous Amendments relating to Harbours, Highways and Transport) Regulations 2017. Therefore the Welsh Ministers give notice that they have published an Environmental Statement (ES).

The project is also subject to an Assessment of Implications for European Sites in accordance with Regulation 63 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 and Article 6(3) of the Habitats Directive 92/43/EC. Therefore the Welsh Ministers also give notice that they have published a Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA).

Copies of the ES and its Non-Technical Summary (NTS), SIAA, and supporting documents may be inspected free of charge at reasonable hours from 30 September 2025 to 11 November 2025 at Deeside Library, Leisure Centre, Chester Road West, Queensferry, Deeside CH5 1SA or at Welsh Government Llandudno Junction Office, Sarn Mynach, Llandudno Junction, LL31 9RZ. They are also available for public inspection on the project website: https://gov.wales/a494-river-dee-bridge.

Caiff copïau electronig o'r Datganiad Amgylcheddol (DA) gan gynnwys ei Grynodeb Annhechnegol (CA), a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP) a dogfennau ategol ynghyd â'r hysbysiad hwn eu cyhoeddi ar-lein yn https://llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

Mae copi papur o'r set gyflawn o'r DA, gan gynnwys ei CA, ar gael gan Lywodraeth Cymru o'r cyfeiriad isod am £871.00 a chopi papur o'r DHAP am £33.00.

Gellir cael copïau o Grynodeb Annhechnegol o'r DA oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Dylai unrhyw sylwadau am y prosiect a/neu'r DA a/neu'r DHAP, gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ym Mharc Cathays a roddir uchod, neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru a dylent gyrraedd erbyn 11 Tachwedd 2025 fan bellaf.

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob sylw ysgrifenedig cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio, a hynny gydag addasiadau neu hebddynt.

**Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwneud sylw ar y DA a/neu'r DHAP, neu wrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau am y Gorchmynion drafft, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses hon caniateir i ni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion a godwyd. Pan fo cynllun cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus (YLIC), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YLIC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YLIC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect, y DA, y CA, y DHAP neu'r hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,**

Electronic copies of the Environmental Statement (ES) including its Non-Technical Summary (NTS), and the Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) and supporting documents together with this notice are published online at https//:gov.wales//a494-river-dee-bridge

A paper copy of the ES including its NTS may be obtained from the Welsh Government at the address given below at a cost of £871.00 and a paper copy of the SIAA at a cost of £33.00.

Copies of the ES Non-Technical Summary may be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Any comments or representations about the project and/or the ES and/or the SIAA, should be made in writing to the Welsh Government at the Cathays Park address given above, or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales to arrive no later than 11 November 2025.

The Welsh Ministers will take all written comments and representations into consideration before deciding whether or not to proceed with the project with or without modifications.

**Please note:** Should you wish to comment on the ES and/or the SIAA or object, support or make representations to the draft Orders, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of this process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with the issues raised. Where a trunk road scheme becomes the subject of a Public Local Inquiry (PLI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PLI Library and is publicly available. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PLI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

Further information about the project, the ES, NTS, SIAA or this notice can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays**

**Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**N HUNTER**
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru
Ar ran Gweinidogion Cymru

**Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**N HUNTER**
Business Team Leader
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers